YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .

Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygyddd—Y Parch. D. JACOB DAVIES, B.A.

CYFROL LII. GORFFENNAF, 1952 RHIF 7.

Nodiadau'r Golygydd

Y SGELITON YN Y CWPWRTH.

DYDD y Gwobrau yng Ngholeg Caerfyrddin oedd hi, a minnau yn ôl yn yr hen gynefin annwyl am ddiwrnod byr. Wrth ddringo'r grisiau a bodio'r ganllaw unwaith eto daeth llawer atgof melys o lawenydd a gofid dyddiau Coleg yn ôl i mi. Y mae myfyrwyr Caerfyrddin wedi sefyll ym mron pob pulpud o Lundain i Gaergybi ac wedi traethu eu neges yn hyglyw i'r byd. Eithr y mae cyfrinachau ynglŷn â'r Hen Goleg na ŵyr neb ddim amdanynt ond y gwŷr a fedyddiwyd trwy dân yn aelodau o'i gymdeithas. Pa beth a ŵyr y byd am fynd " mas drwy'r ffenest " a "Shir Benfro " ? Ni chlywodd am yr " Admiral " na'r "Garddwr " na'r "blacs bach " o barchus goffadwriaeth. Ni ŵyr pawb ychwaith am y *Sgeliton yn y Cwpwrth.*

Oes, y mae yno sgeliton yn y cwpwrth, ac nid esgus mohono, ond ysgerbwd truan o ŵr a ddienyddiwyd am y drosedd *fileinig* a ddal ysgyfarnog rhyw ŵr bonheddig, neu rywbeth tebyg, ychydig dros gan mlynedd yn ôl. Gelwir y ddeddf a'i crogodd yn *Ddeddf Ddu* gan haneswyr, ac erys y sgeliton yn y cwpwrth i dystio'n llafar am farbareiddiwch dyn at ei gyd-ddyn. Ond meddech, aeth heibio'r dyddiau hynny ac yn oes y breiniau mawr ni erys y fath gamwri. Wn i ddim, ond gwn fod deddfau o hyd sy'n caniatau crogi dynion a deddfau sy'n caniatau lladd dynion wrth y miloedd.

Deddfau Du ydynt ac fe erys y *sgeliton yn y cwpwrth.*

Cwpwrth cornel ydyw a gallech dreulio blynyddoedd yn yr ystafell heb wybod beth yn y byd sy'n llechi tu ôl i'r cyrten ar ei wydr. Credai'r hen Athrofa mewn addysg agored a helaeth a daeth ysgerbwd yno er cynorthwyo'r myfyrwyr yn ei hastudiaethau o'r corff dynol yn ddiau. Crair ydyw erbyn hyn, ac ni welir mohono ond ar achlysuron arbennig, megis y tro hwnnw y gweithredodd fel cadeirydd i gwrdd arbennig dan yr enw " Dyn o Soar " (*dinosaur*). Ie, ynghudd y mae a thawelwch yr ystafell Athroniaeth a'i llyfrau dwys yn ei gwato o'r golwg. Ac er mor felys y darlithiau gan yr

Athro annwyl, er cymaint miri'r myfyrwyr, daeth ychryd drosto lawer tro wrth gofio am y *sgeliton yn y cwpwrth.* Llwyddodd ein byd modern i dynnu cyrten lliw drosto a'i gloi o'r golwg ond ni all hynny byth ddiddymu'r ffaith fod sgeliton yn ein cwpwrth.

Dyma'r coleg a fu'n gyfrwng i ddysgu cymaint am werth ac urddas dyn ; dyma'r coleg a fu'n gyfrwng i roi addysg yn ei ddwylo ac agor gorwelion ei feddwl. Ond er cymaint yr ymdrech fe deimlwn fod rhyw ysgerbwd hagr yn llechu tu ôl i'r cyfan—y *sgeliton yn y cwpwrth.*

Yn yr ystafell hon y cyfarfu Pwyllgor y myfyrwyr Undodaidd ac yma y daeth tri llanc ifanc atom i roi cyfrif am eu gwaith.

Pa beth sydd yn ei disgwyl wedi gadael yr athroniaeth a'r llyfrau a delfrydau ieuenctid ? A gant hwy eglwysi llawn brawdgarwch ynteu a fydd *sgeliton* yn eu disgwyl tu ôl i gyrten rhyw gwpwrth ?

A'r hen Goleg yntau, beth amdano ? Yn ôl adroddiad ei reolwyr y mae dyddiau du o'i flaen. Hyn yn unig a obeithiaf, y gall fyw yn ddigon hir i weld diddymu'r *sgeliton yn y cwpwrth.* Ni thâl ddim i dynnu cyrten drosto na'i guddio o'r golwg ond trwy oleuni dysg a gras Duw ymdreched i symud y sgerbwd a'i orchfygu'n llwyr.

Y Genhinen a'r Ysgallen

Gan Nance.

"Byddwch unfryd a'ch gilydd." Cofiaf adrodd hyn o eiriau yn y Gymanfa Bwnc ond ofnaf i mi golli'r adnod am dro ar daith yn ddiweddar. Gwladgarwch oedd fy unig esgus dros hynny a chan mai hwn yw'r unig gwæryl a enillais erioed, efallai y carech glywed amdano.

Dyma ni. Y ddwy Ann unwaith eto yn ffair a ffatri gorsaf Edinburgh ac yn wynebu am adref. Pob un yn ei sêt a dim lle dros ben. Pob un yn mesur y llall a'r wynebau braidd yn sur. Felly, bant â ni heb yngan gair. Yn y man dyma Ysgotyn ysgallog, hunan-bwysig yr olwg yn dweud rhywbeth amharchus am y Cymry. Ni fynnaf gofio beth a ddwedodd bellach ond fe'i rhybuddiais ei fod yn siarad â Chymraes. Aeth y dyn clyfer rhagddo yn ei hyfdra gan ddilorni Cymru wrth y llath. Dywedais wrtho, "os dyna eich ffordd arferol o siarad nid yw'r rhyfedd i bawb a welsoch yng Nghymru 'droi cyrn' arnoch." Ychwanegais y cawsai groeso ped ai i blith y Cymry fel gŵr bonheddig. Yr oedd y natur fach yn dechrau codi erbyn hyn a phawb yn edrych yn syn. Nid oes atal ar y Ddraig Goch pan ddyry gychwyn !

Chwarddodd y Sgotyn am ben mynyddoedd Cymru—"nid oedd mynyddoedd yng Nghymru—dim ond bryniau ! " Atebais yn

gwta nad oedd glod yn y byd iddo effod mynydd uwch na'i gilydd a yn ei wlad. Troes wedyn i wawdio cyflwr Cwm Rhondda y tharewais innau ergyd cadarn am *slums* Glasgow—y gwaethaf yn y byd. Aeth yn anlwc arno i ddweud iddo glywed canu rhyfeddol yng Nghwm Rhondda. Prin y gallwn goelio fy nghlustiau !

Faint yw'r scôr 'nawr, Mr. Golygydd ? Bydd sawr a blas cenhinen werdd yn fwy chwaethus i mi ar ôl y Bannockburn yma. Cymry am Byth !

Clodforwn yn awr Ein Gwyr Enwog

I.

JOHN LEWIS ROWLANDS.



Cardi o Glarach yw J. L. Rowlands ac un o'r gwŷr mwyaf hynaws a droediodd y ddaear erioed. Fel y gŵyr ei gydnabod, ef yw pennaeth yr *Aberdare Leader* a nifer o bapurau newydd eraill yng Ngogledd Cymru, ac eleni fe ddathlodd y *Leader* ei ben blwydd yn hanner cant oed. Nid menter fechan i ŵr ifanc pump ar hugain oed, a chyfaill cyffelyb, oedd cychwyn

papur newydd, a dechrau o ddim megis. Gweithiodd heb gyfrif yr oriau, ond er gwaethaf yr holl brysurdeb yr oedd ganddo amser yn sbâr i wasanaethu ei gapel a'i enwad. Bu yn ysgrifennydd i Highland Place am dros ddeng mlynedd ar hugain, a charwn gredu fod dylanwad ei gapel yn drwm ar oddefgarwch a thegwch ei bapur. Cyhoeddodd y gwir yn erbyn y byd a phleidiodd y gwan ar bob cyfle. Ni ŵyr neb, ond ychydig o'i ffrindiau agos, am haelioni anarferol y gŵr hwn sydd wedi gweithredu egwyddorion gorau crefydd yn ei fywyd bob dydd. Derbynied longyfarchion cynnes yr YMOFYNNYDD ac yng ngeiriau Harry Lauder dywedaf wrtho, "*Keep right on to the end of the road*".

II.

MORGAN RHYS MORGAN.

Dyma lun llywydd Cymdeithas Undodaidd De-Ddwyrain Cymru am eleni ac un arall o bileri Highland Place. Peiriannydd medrus yw Mr. Morgan yn ôl ei swydd ond gall siarad yn huawdl ar unrhyw destun dan haul—ac am yr haul ei hun os mynnwch ! Gŵyr enwau'r sêr, gŵyr hanes ei wlad ac os ydych am ddadl boliticaidd o safbwynt anarferol, wel, ef amdani. Gall olrhain ei achau yn ôl at bendefigion Undodiaeth yn y Cwm ond gwell ganddo yw cadw ei lygad ar orwelion pell gobeithion y dyfodol. Fel Mr. Rowlands gall esgyn i'r pulpud gydag urddas ond ni ymwrthyd â manion gweithgarwch syml. Boed iddo flwyddyn gofiadwy wrth ei swydd.

"Gwybod ei Feibl . . ."

Gan Hesgin.

Pan oeddwn i'n hogyn dywedid, gydag edmygedd, am rywun hyddysg yn yr Ysgrythurau ei fod "yn gwybod ei Feibl." Daeth tro ar fyd oddi ar hynny. Erbyn heddiw dim ond rhyw dri dosbarth o Gymry sy'n gwybod eu Beiblau : (1) clerigwyr a gweinidogion (y Beibl yw prif erfyn eu galwedigaeth hwy ; (2) rhai a ystyrir yn dipyn o grancod—y Christadelphiaid a'r Plymouth Brethren, er enghraifft ; (3) amheuwyr ac anffyddwyr. "Anffyddwyr ! " medd rhywun. Wel, ie. Cofiaf imi fod yn gwrando darlith gan anffyddiwr yng Nghaerdydd flynyddoedd yn ôl. Yn ystod egwyl y cwestiynau ar y diwedd cafodd un holwr ateb nas disgwyliodd, ac ebr ef, yn goegaidd, wrth y darlithydd, " 'Rydych chi'n hyddysg iawn yn eich Beibl, on'd ydych chi ! " Ebr hwnnw, fel ergyd o wn, "Mae'n rhaid imi fod ; 'does raid i chi, Gristionogion ddim ond 'i gredu o ! "

Byddaf (gan fy mod yn nhymor fy ail-blentyndod, efallai) yn gwrando ar ambell raglen yn "Awr y Plant" ar y radio. Yn y cystadleuaethau a geir rhwng y gwahanol barthau sylwais fod y plant, pan ofynnir cwestiwn Beiblaidd iddynt, yn ocheneidio ac yn griddfan. Daw'r "Oh ! ! " yn hyglyw drwy'r awyr, ar waethaf yr ymdrech i'w mygu.

Hefyd, y mae anwybodaeth y darllenydd cyffredin o'i Feibl yn gwneuthur y gorchwyl o ysgrifennu Cymraeg yn y dyddiau hyn yn un anodd. Pan ddefnyddio un gyffelybiaeth neu ddyfyniad o'r Beibl ni ellir bod yn sicr a ddeellir y pwynt o gwbl—yn enwedig gan y rhai sydd dan ddeg-ar-hugain oed. Felly, pan feddyliais y buasai'r ddwy stori ganlynol yn ddiddorol i ddarllenwyr Yr Ymofynnydd, yr oedd cryn amheuaeth yn fy meddwl. (Ond efallai, y dylwn, ym marn rhai, gynnwys darllenwyr Yr Ymofynnydd yn nosbarth (2) uchod). Sut bynnag, cyma fi yn ei mentro hi.

Gwehydd wrth ei grefft oedd Rolant Huw Pritchard, y Bala,—awdur yr emyn-dôn "Hyfrydol." Ond byddai'n gweithio "efo'r ffarmwrs" adeg cynhaeaf gwair a chynhaeaf ŷd. Ni chyhuddid Rolant o fod yn ddyn diog, ond nid oedd yn hoff o godi'n fore. Ar y ffordd dyrpeg rhwng y Bala a Ffestiniog, tua deg o'r gloch un bore braf yn niwedd mis Mehefin, cyfarfu Rolant ag Edmwnt Jones, Filltir Gerrig—hen ffermwr, a blaenor yng Nghapel Celyn. Ebr Edmwnt wrtho, "Lle 'dech chi'n mynd, Rolant ? " Atebodd Rolant, "Emwnt bach,

Pwy feddylie, a'r hin mor fwll,
Fod Amnodd Bwll cyn belled ? "

"Oh," ebr Edmwnt, "a mynd i Amnodd Bwll at y gwair yr ydech chi? Mi wn i'n burion ych bod chwi'n bur barod ych ateb : ma' gynnoch chi gwpled ne' adnod i brofi popeth. Ond pwy bennill ne' adnod sy' gynnoch chi 'rwan, yn esgus dros fynd at ych gwiath iyr amser yma o'r dydd?" "O," meddai Rolant, "'mae gen i adnod i gyfiawnhau hynny hefyd, welwch chi : 'Ofer i chwi foregodi, myned yn hwyr i gysgu . . . '." (Salm cxxvii, 2).

A dyma stori arall am Edmwnt Jones. Aeth un o ddynion ifainc ei gapel (mab fferm) ato i ofyn ei gyngor ynghylch priodi. Ebr y y gŵr ifanc wrtho : "Mae 'nhad a 'mam yn dechre' mynd i oed, Emwnt Jones, ac yr ydw' i wedi bod yn meddwl am briodi." "Oes gen' ti rywun mewn golwg?" gofynnodd Edmwnt. "Oes," oedd yr ateb, "mae gen' i ddwy." "Oh!" ebr Edmwnt, "pwy yden nhw?" Ebr y bachgen : "Morwyn Maes-y-Dail ydi un ; mae hi'n eneth landeg a gweithgar—ac y mae hi'n aelod efo ni yn y capel. Merch Penbryn Fawr ydi'r llall : mae hi'n eneth barchus, er nad ydi hi ddim yn aelod o'r capel, ac y ma' nhw'n deud y ceir tipyn go lew o gynhysgaeth efo hi." "Wel," ebr Edmwnt, "gwna di fel y mynnot ti. 'Does gen i ond hyn i'w ddeud wrthat ti : mi briodes i un o ferched y Philistied ; ac yr ydw i wedi bod yn yfed llwch y llo ers deugen mlynedd." (Ecsodus xxxii, 20). Gwn yn burion, (a gwyddai Edmwnt hefyd, mae'n ddiamau) mai ffurf wahanol ar stori'r llo aur sydd yn Deut. ix. 21).

Salmau'r Mynydd Ddoe ac Echdoe

AMLINELLIAD O DDATBLYGIAD EIN CENHADAETH GYNULLEIDFAOL.

Gan Haydn Morgan.

Salmau Anghydffurfwyr.
Cyfieithiadau Dafydd Jones o Gaeo.

Mewn dyddiau fel y rhain pan glywir anthemau'r "pedwar enwad" a chyfeiliant organau yn llanw ein capelau heirdd, modern, dylem gofio mai'r lleiafrif oedd Ymneilltuaeth Gymreig cyn sefydlu'r Corff Methodistaidd Calfinaidd yn 1811. Dim ond am ddau enwad y buwyd yn sôn o'r blaen a hynny yn y cyfnod cyn dyfodiad y gyfundrefn Wesleaidd i Gymru ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Yr oedd yr *hen* bresbyteriaid (megis aelodau capeli Abertawe, Cwmgwrach ag Alltyblaca) a hefyd aelodau enwad bach y Bedyddwyr Cyffredinol (*General Baptists*—megis yn y Wig, y Notais a Phanteg) na fu gyswllt rhyngddynt â'r

Bedyddwyr Penodol (*Particular Baptists*) eisoes wedi troi'n Undodiaid.

Lleddf a di-gyfeiliant oedd y canu ymneilltuol cyntaf a phan gododd yr hwyl gyda'r Diwygiad Methodistaidd yr oedd yn anhepgorol i anghydffurfiaeth a hithau eto yng nghyfnod y Salmau Cân i gael mydryddiad arbennig iddi hi ei hunan ohonynt. Yr oedd angen gwell mynegiant i'w ffydd a'u hathrawiaethau ac fe gafwyd y cyfrwng yn salmau'r enwog Dr. Isaac Watts, gweinidog ymneilltuol capel Mark Lane, Llundain. Fe gyfansoddodd ' tad emynyddiaeth Saesneg ' fel ei gelwir gannoedd o hymnau rhagorol a'u cyhoeddi yn ei *Hymns and Spiritual Songs* (*1707-9*). Ysgrifennodd hefyd ei fydryddiad o Salmau Dafydd yn 1719. Bu gwaith Isaac Watts yn llyfr emynau cyfan ynddo'i hun i'r cynulleidfawyr a'r bedyddwyr. Yr oedd y ddau enwad yn agosach i'w gilydd bryd hynny ac nid oedd y cwestiwn o ddefod bedydd ai trwy drochiad neu beidio mor llosg eto. Ar brydiau fe arferwyd trochiad yn yr Eglwys Wladol a hefyd gyda'r ymneilltuwyr. Ceir bedyddfan yn Eglwys y Santes Fair, Aberdâr [ac yno hefyd hyd heddiw erys y *gan blaen* yn Gymraeg—ar wahan i'r siant]. Y mae ar gof eto, fod sôn am John James yn bedyddio drwy drochiad yng Ngellionnen yn y fedyddfa agored y gwelir olion ohoni o hyd o flaen y glwyd ar y mynydd.

Yng Nghymru, gyda thyfiant y *societies* a dyfodiad yr emyn Cymraeg newydd daeth galw o gyfeiriad rhai o'r gweinidogion ymneilltuol am gyfieithiad o sallwyr Watts oherwydd eu drwgdybiaeth o ' hwyl ' y Methodistiaid ac o bwyslais emynau Pantycelyn ar brofiad. Yr oedd gwir angen am emynau a chan fod cyfieithiadau Dafydd Jones o Salmau Watts (1753) yn rhagori ar Salmau Prys fel cyfryngau mawl i grefyddwyr y cyfnod, fe aethant ar led drwy gorff ymneilltuaeth Gymraeg mewn byr amser. A diau iddynt gyrraedd Gellionnen ar yr un adeg.

Yn ei ragymadrodd i'w Salmau dywed Dr. Watts ba mor anghymwys oedd gwrando offeiriad yn yngan geiriau Salm am "foliannu â'r delyn" pan nad oedd unrhyw offeryn cerdd ar gyfyl y rhan fwyaf o'r eglwysi. Soniai am Loegr, wrth gwrs. Ymhellach, gwelai mor amhriodol oedd sôn am Dduw fel "cadben y gad" ac ymadroddion tebyg a weddai efallai i gyfnod Dafydd ond nid i'w oes brynedig, freiniol ef, yng ngoleuni'r efengyl.

Ysgrifennodd y salmau yn y tri mesur a throsodd yr unrhyw un ar ddau fesur gwahanol, neu hyd yn oed dri. Rhoddodd hefyd wahanol fesurau ar rai, megis S. 122 (122nd tune) a S. 148 (148th tune). Rhoddwn ddechrau Salm I yn ei fydryddiad :

"Blest is the man who shuns the Place
where Sinners love to meet
Who fears to tread their wicked ways
and hates the Scoffers' seat."

Gwelwn "efengyleiddio" yn pennill canlynol, o'r un salm ar y mesur byr :

"How will they bear to stand—
before the Judgement seat,
Where all the Saints at Christ's right hand,
in full Assembly meet."

Dywed Dafydd Jones, yn ei ragair i'w gyfieithiad ohonynt, am reidrwydd cyfaddasu.

"Y ma yn annodd i neb dynion, gymhwyso y cyfryw ymadroddion, yn briodol at eu cyflyrau eu hunain, oddieithr cael ynddynt droad, neu gyfaddasiad Efengylaidd, i fod yn fwy cytunol â chyflyrau grâs."

Llwyddodd i roi syniadau Watts, yn gyflawn mewn Cymraeg glân, eglur, a hynny ar y mesurau Salm Cymreig.

Bu ein cenedl yn dra ffodus unwaith eto, i gael salmau canadwy, a chyfieithiad llithrig, a mydryddiad *gwell.*

"Gwyn fyd y dyn ochelo'r fan
sydd hoff gan annuwiolion,
Ffieiddio mae eu ffyrdd di-ras
a'u gwawdiaith gas, o galon.

Lle rhydd Watts fwy nag un mydryddiad o'r un salm, rhydd Dafydd Jones hefyd yr un nifer. Cawn hefyd yr amrywiol fesurau achlysurol.

Dyma ddechrau un o'r ddau fydryddiad, ar y mesur hir, sef y ganfed salm (odlir â chwpledi).

"I'r Arglwydd cenwch hyfryd Gan,
pob gwlad rhowch fawl i'w Enw glan,
Fryttaniaid a'ch Calonnau a'ch llef,
dyrchefwch chwi ei enw Ef."

Dim ond un tôn, yn unig, oedd yn llyfr Prys (yr unig lyfr tonau Cymreig bryd hynny) ar gyfer y ganfed salm, ond gan mai dim ond un sillaf yn llai mewn dwy linell, sydd yn y mesur cyffredin Cymreig, efallai, y gellid fod wedi gwasgu'r mesur hir hwn, i mewn ar donau eraill.

Ond, wrth gwrs, yr oedd "tunes" arall newydd yn dechrau dod i'r tir. I'r eglwysi Seisnigaidd daeth y York Tune, Lichfield, Oxford, St. Davids, Bristol, Cambridge, Gloucester, St. Pauls, St. Andrews, London Old, Canterbury, St. James, etc. ac fe ddaeth rhestr ohonynt allan *mewn dau bart* gyda salmau Tate and Brady Sylwer mai *enwau eglwysi a lleoedd sydd arnynt* (ac nid damweiniol mo hyn ychwaith, oblegid fe fuasai cysylltiad gwreiddiol rhwng y

dôn a'i henw). *Tybiwn bod rhai o.r rhain yn dod ar gof yng Nghymru Gymraeg hefyd* ; fe fyddai cantorion yn mynd oddiamgylch yr eglwysi. i ddysgu canu'r salmau a'r carolau. Ysgrifennodd Howel Harris at Griffith Jones yn 1736, "Yr wythnos nesaf yr ydym i gael athraw cerddorol i'n dysgu i ganu'r salmau." (Y salmau-cân wrth gwrs).

Rhown enwau dau gerddor pwysig a ddechreuodd ddatblygu'r gerddoriaeth eglwysig Gymreig. Cafodd John Williams, Dolgellau (Ioan Rhagfyr) dri mis o ysgol yn yr Amwythig, a daeth i ganu'r ffliwt a'r trwmped. Cynhaliodd ddosbarthiadau ar hyd y Gogledd, dysgodd gantorion (yn eu plith, y Parch. J. R. Jones, Ramoth, gweinidog y Bedyddwyr, a wnaeth lawer i geisio codi safon tonau'r ymneilltuwyr). A chyfansoddodd y gŵr hwn anthemau a thonau poblogaidd a daeth un, "Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd" yn adnabyddus, fel "anthem fawr Llanllechid," oherwydd y "canu mawr" a fu arni'n yr eglwys yno. Bu mawr fri hyd at yn ddiweddar, yn ardal Dolgellau, ar ei anthem Nadolig "Yr oedd yn y wlad honno." [Ceir tair tôn o'i eiddo yn y *Perlau Moliant*, sef Cemaes, Brynhyfryd a Sabath].

Nodwn y ganiadaeth eglwysig, er mwyn gallu deall yr un anghydffurfiol hefyd. I'r "hen fam" y perthynai'r rhan fwyaf o'r Cymru o hyd, ond ynddi hi 'roedd y pwyslais ar ganu'r côr o'r anthemau a'r salmau.

Ond i'r ymneulltuwyr yr hymnau newydd, a ddaeth yn bwysicaf a'r rheiny wedi ei gosod ar donau di-chwaeth, poblogaidd, newydd o Loegr. Serch hynny, fe ddaeth salm donau'r eglwys i gylchrediad hefyd, ac yn ddiau, yn eu plith, eiddo Ifan William.

Brodor o Langybi, Sir Gaernarfon, oedd yr olaf, ond treuliodd y rhan fwyaf o'i oes, yn Llundain, lle'r oedd yn delynor yn un o'r eglwysi. Fe helpodd John Parry, y telynor enwog dall o Riwabon, i ddwyn allan ei *Antient British Music, or a Collection of Tunes never before published* (yr argraffiad cyntaf o gerddoriaeth Gymreig).

Ifan William a roddodd (gyda'i ddewisiad o salm donau) y cyfarwyddiadau Cymraeg cyntaf, argraffedig ar gyfer dewis tonau. "*Y Psalmau Gweddiau a ddylid eu canu ar y Peroriaethau lleddfon, a'r Psalmau Mawl, ar y Peroriaethau crason.*" !

Oni allwn ddychmygu'r hen bobl yn ymroddi i ganu'n gras o'r bol, i fynegu eu hwyl, a lleddfu eu lleisiau wedyn, heb gyfeiliant, pan ddeuai nodyn o ymbil i'r gân.

Cyfieithodd Dafydd Jones, hefyd, "*Hymnau a Chaniadau Ysbrydol*" y Dr. Isaac Watts, 341 i gyd, (131 o'r Ysgrythur, 174 ar destunau dwyfol, a 36 ynglŷn â Bwrdd yr Arglwydd). Defnyddiodd Josiah Rees, salmau a hymnau Watts (cyf. D.J.), yn ei gasgliadau yntau. Cawn naw emyn yn y *Perlau Moliant* o waith Dafydd Jones ac yn eu plith (29) sef Salm 23 (Watts), yn y mesur byr Cymreig. Y mae emyn 148 yn digwydd bod ar yr hen "148th Psalm measure" (6.8.).

RAMOTH.

D.C.



(S.148 Watts, cyf. D.J., proper metre).

"Holl Lwythau Addaf dowch
Nef Dae'r a Moroedd maith
Mawl i'ch Creawdwr rhowch
Yn eich amrywiol Faith
Angylion glan y disglaer Lu
Mewn Bydoedd fry rhowch ddechre'r Gan."

Rhown un o donau Ifan William,—y gyntaf o'r wyth a gyfansoddodd. Byddai hon yn yr hen nodiant, yn y treble a'r bass clefs. Gallwn ddychmygu gwrando'r arweinydd, heb offerynwyr, ond â'r bibell (pitch pipe) yn canu'r rhannau hyd nes y byddai'r "hen ddynion" yn eu gwybod. Yn y capelau Arminaidd, efallai, byddai'r fflageolet a'r hautboy (oboe) yn helpu'r cantorion.

ST. GARMON.



(S. 98, Watts, cyf. D.J.).

"I'r Arglwydd cenwch newydd Gan
O foliant glan ar gyhoedd
Ei Ras a'i Iechydwriaeth gref
Ddatguddiodd ef i'r Bobloedd."

Rhown eto dôn a oedd yn boblogaidd iawn, yn amser David Jones ; hen alaw Seisnig â chydgan, a ddaeth i fod yn dôn gyfarwydd. Y mae yn y mesur hir.

JUDGEMENT.



CYDGAN.



(*S. 100, Watts, cyf. D.J.*).

"Genhedoledd yr holl Ddaear dewch
a llawenydd ger bron ein Duw
Gwas'naethwch Ef â chalon rwydd
yr Arglwydd ein Penllywydd yw."

(*I'w barhau*).

Gohebiaeth

TRO I'R IFANC.

Wedi gorffen darllen hanes arholiad yr Ysgol Sul am 1952 yn rhifyn Mai o'r YMOFYNNYDD, ymddengys mai gwan yw'r nifer sydd yn perthyn i'r Ysgol Sul. Yn wir, pair i mi ofyn beth sy'n bod? Paham fod yr Ysgol Sul yn colli tir heddiw?

Ie, Undodwr ydwyf, sydd ar hyn o bryd yn byw tu allan i.r "Ysmotyn Du." Er hynny, credaf fod hawl gennyf fel "Undodwr" i roi fy marn. Yn wir, fel bachgen ifanc, hoffwn weled mwy o frwdfrydedd yn perthyn i'n eglwysi. Y mae'n bryd i'r bobl ifainc gynnal cwest ar yr Ysgol Sul.

O un peth yr wyf yn sicr, a hynny yw, fod athrawon yr Ysgol Sul heddiw lawer mwy diog nag oeddent rhyw bymtheg neu ugain mlynedd yn ôl. Y mae ein Ysgolion Sul yn llawer rhy 'glaear'. 'Does dim bywyd ynddynt. Tybed a ydyw awenau yr Ysgol Sul yn nwylo prennau crinion, neu yn nwylo pobl nad ydynt yn Undodwyr i'r carn. Hefyd y mae diffyg esbonwyr yn ein Ysgolion Sul. Beth yw'r rheswm nad oes yr un plentyn wedi eistedd yr arholiad o rai capeli? Y mae llawer i Gapel arall a dim ond rhyw ychydig wedi cynnig. Os â'r Ysgol Sul lawr, beth am ddyfodol ein henwad? Beth am bileri ein capeli ni tua diwedd y ganrif yma? Carwn wybod a ydyw ein Diaconiaid yn sylweddoli pwysigrwydd eu swydd. Pa faint ymdrechant i geisio cymell pobl i'r Cwrdd a'r Ysgol Sul? Hefyd, a ydyw ein gweinidogion yn hoffi pregethu i seddau gwag? A ydynt yn bugeilio fel y disgwylir?

Beth am ymgyrch yn y dyfodol agos, ymhlith y Diaconiaid a'r Gweinidogion i geisio creu diddordeb unwaith eto ym mhlant yr eglwysi sydd ar goll.

Hefyd, y mae'n bryd i aelodau ein capeli ni ddeall nad yw cyfrannu at y

weinidogaeth yn ddigon. Y mae eisiau adfywio ein sêl tuag at grefydd, ac yn olaf 'rwyf am atgoffa rhieni fod yr Ysgol Sul yn adeiladu cymeriad a meddwl plentyn. Rhaid dysgu plentyn ym mhen ei ffordd.

Yn olaf, 'rwyf am ddiolch i'n Golygydd annwyl am eu sylwadau bob mis. Y maent yn ddiddorol, a thrueni na cheir rhagor tebyg iddynt yn yr Ymofynnydd. Y mae eisiau i'r erthyglau ddiddori mwy o'r ifanc, a theimlaf nad ydynt yn cael hyn, yn llawer i erthygl. Ni ddywedaf ragor.

Hoffwn weled pregeth rymus yn ymddangos yn fisol yn ein cylchgrawn. Beth amdani. Wel, pob hwyl i'r achos yn yr hen fro yn y dyfodol.

"Ffyddlon."

Marwgofion

Ar y 23ain Ionawr, HARRY PETCHE, 2, Clettwr Terrace, Pontshaen, yn 72 oed. Nid un o'r cylch ydoedd, a threuliodd y rhan fwyaf o'i oes yn ardaloedd gweithfaol Morgannwg. Ar ôl gwanychu o'i iechyd o herwydd llwch y garreg ddu daeth i fyw i Bontshaen, a thrwy'r blynyddoedd y bu yn yr ardal daeth yn adnabyddus i lawer fel gŵr o gymeriad hardd, ac o ysbryd mwynaidd. Er mai ym mynwent Pantydefaid y daearwyd ei weddillion, âi yn gyson i eglwys Sant Ioan. Bu yn briod ddwywaith, a gedy ar ei ôl mewn hiraeth ei ail briod—Mrs. Petche â thri o feibion. Gwasanaethwyd yn ei angladd gan y Parchn. J. Marles Thomas, M.A. a'r Parch. T. R. Evans, B.A., Ficer Llandysul.

Ar y 17eg o Ebrill, ym mynwent Capelyfadfa, EVAN DAVIES, Brynawelon, Talgarreg, yn 74 oed. Yn un o naw o blant, ganwyd ef yn y "Gors," a mab i Mally ac Evan Davies, Croesgwyn, neu fel yr adwaenid hwy gan lawer, Evan a Mally Ffos. Nid oes yn awr yn aros o'r teulu ond dwy chwaer, (un yn Llandysul, a'r llall yn Rhydlewis), ac un brawd ym Merthyr. Wedi priodi symudodd i fyw i Bantcoch-isaf, ac ym mhen rhai blynyddoedd ymfudodd i Ysgolddu (neu Brynawelon). Bu ei briod farw 12 mlynedd yn ôl, a'r blynyddoedd diwethaf yma ymgartrefodd gyda'i ferch a'i fab-yng-nghyfraith. Cafodd ei hir gystuddio, ond bu iddo bob gofal ac ymgeledd. Daeth y diwedd yn dawel fel ei fyw. Ie ! cymeriad tawel a hoffus gan bawb. Am flynyddoedd bu yn gweithio "ar y ffordd." Un ydoedd a gymerai ddiddordeb yn ei waith, ac a roddodd ei orau. Hyd at ei gystuddio bu yn addolwr cyson yng Nghapelyfadfa, ac yn aelod trwy'i oes. Daeth llu o gyfeillion ynghyd ar ddydd ei angladd. Cymerwyd gofal o'r gwasanaeth angladdol gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A., yn cael ei gynorthwyo gan y Parch. Glyn Williams (W.), Llandysul, a Miss Thomas, Green Grove, wrth yr organ. Gedy ar ôl mewn hiraeth mawr ddwy ferch a dau fab. Bydded i Dduw y teulu fod yn gysgod iddynt yn eu galar.

Mai 4, bu farw William Price Jones, gynt o Hen Siop, Rhydowen ger Llandysul. Bu farw yn nhŷ ei ferch a'i fab-yng-nghyfraith yn Llundain, yn

79 oed, wedi bod yn wael mewn ysbyty am rai misoedd. Mab ydoedd i'r diweddar James ac Anne Jones, Gelligron ger Llwynrhydowen, ac aelod o deulu adnabyddus Gelliaur. Cafodd ei addysg yn Ysgol Pontshaen ac oddi yno aeth yn brentis i siop fawr yng Nghaerdydd cyn iddo ymuno â chyffelyb sefydliad yn Llundain, lle bu hyd ei ymddeoliad ddeng mlynedd yn ôl. Yn ystod y rhyfel daeth ef a'i briod yn ôl i fyw at ei chwaer i Rhydowen ond bu ei briod farw yn fuan. Ar ôl bod yn brysur drwy ei oes, ychydig yn farwaidd a dibleser oedd dyffryn Cletwr iddo, ac aeth eto yn ôl at ei hen swydd, lle y bu yn rheolwr ar fasnachdy yn Aberystwyth am dros naw mlynedd. Yr oedd o gymeriad glân, a pherchid ef yn fawr gan reolwyr ei swydd. Llosgwyd ei gorff, a dygwyd ei ludw i'w claddu ym medd ei briod ym Mhantydefaid. Gweinyddwyd ar lan y bedd gan y Parch. J. Marles Thomas, M.A. Heddwch i'w lwch.

Ar y 16eg o Fai, DANIEL DAVIES, Tynfron, Llanwenog, yn 71 oed. Hannai o deulu Pantmoch, neu cyn hynny Penrallt ac Esgairddedwydd—hen deulu parchus drwy ganolbarth Ceredigion, a'i enw yn adnabyddus bryd bynnag y cyfeirir at Undodiaeth y Sir. Ffyddlondeb a serch tuag at yr Achos Gorau—dyna nodwedd y teulu, a thrwy ei oes bu David Davies yn ffyddlon i'r traddodiad. Saif Tynyfron yng nghanol yr "Ysmotyn Du" yng Nghereddigion, a safai yntau drwy'r blynyddoedd dros y ffydd, ac yn ddiacon selog yn y Llwyn. Ar ôl treulio 35 o flynyddoedd yn Tynfron, cymudodd i fyw i Lwyndewi, Rhydowen dair blynedd yn ôl, a'r chwe mis olaf o'i fywyd treuliodd ar aelwyd gynnes a chartrefol Pantmoch, a chael ohono yno ofal brodyr a chwiorydd cu. Bu yn briod ddwy waith, y ddwy ohonynt wedi ei ragflaenu ers blynyddoedd. Yr oedd yn gymeriad didwyll,, o ysbryd hawddgar, ac yn uchel ei barch yn y cymydogaethau. Claddwyd ei weddillion ym mynwent y Llwyn ar Fai 20, pryd y gwasanaethwyd gan y Parchn. J. Marles Thomas, M.A., Lewis Williams, S. E. Bowen, S. Morgan (Ficer Llanwenog), a Mrs. . M. Jones wrth yr organ. Gedy ar ei ôl mewn hiraeth dwys, bedair chwaer a phum brawd ynghyd a llu o wyrion ac wyresau. "Yr oedd yntau o lwyth Benjamin."

Mai 22, yn 81 mlwydd oed, Mrs. SARAH DAVIES, gweddw y diweddar Gapten John Davies, Hollis, Llanbedr. Nid oedd ond saith wythnos oddi ar farwolaeth y Capten Davies. Hi oedd ail ferch y diweddar Mr. a Mrs. Thomas Evans, Tynant, Ciliau Aeron. Bu yn orweddog am fwy na blwyddyn oblegid diffyg ar y galon. Nid oedd yn awyddus am fod yn amlwg yn unman, ac ni fyddai byth yn uchel ei llais. Er hynny, lle bynnag y byddai angen am gymorth a chydweithrediad ni fyddai yn ôl o gyflawni ei rhan. Yr oedd nodweddion plant Tynant i'w gweled ynddi, ac ar gyfrif ei lledneisrwydd, ei hynawsedd, ei phwyll, a'i meddwl craff, yr oedd yn un oa gynhyddai yn ei pharch wrth ei hadnabod. Caseai ffug-ymddangosiad, ac nid oedd amau ar ei gonestrwydd. Claddwyd ym mynwent Capel Ciliau Aeron. Gwasanaethwyd gan y Parch. Lewis Williams, a chynorthwywyd gan y Parchn. J. T. Jones, Ficer Ciliau Aeron, a'r Parch. T. O. Williams, M.A.,

Brondeifi, Llanbedr. Chwareuwyd yr organ gan Mr. Timothy Jonathan. Gadawodd mewn galar un mab, sef Dr. T. Davies, Aberhonddu, un ferch, yr hon sydd gartref ac a weinodd ar ei mam yn ystod ei hafiechyd gyda thynerwch mawr, ac un chwaer, priod y Parch. Hamer Hughes Davies, Ficer Bridgewater yng nghyd ag amryw o neiaint.

Mai 25ain, WILLIAM JONES, Heddfan, Llanfihangel-ar-arth, yn 72 oed. Mab ydoedd i deulu Gwarallt, Llanllwni, a phriod Margaret, gynt o Cross Inn Farm. Ffermwr ydoedd o alwedigaeth, a threuliodd 36 o flynyddoedd yn Sasckatchewan, Canada. Dychwelodd yn ôl i'w hen wlad bum mlynedd yn ôl. Gŵr diwyd wrth ei waith, a pharch i'w enw. Taenwyd ton o dristwch dros yr ardal o glywed am ei farw sydyn ac annisgwyl. Claddwyd ei weddillion ym mynwent Pantydefaid ddydd Mercher dilynol a'r Parch. J. Marles Thomas, M.A. a'r Parch. Daniel Evans, Ficer Llanfihangel, yn gwasanaethu. Gedy mewn galar ei briod a pherthnasai lawer.

Mai 28, bu farw Mrs. SARAH JANE THOMAS, Y Felin, Drefach, Llanwenog yn 65 oed. Er nad oedd mewn iechyd da ers amser daeth y diwedd yn ddirybudd. Benyw fwynaidd garedig ,di-sôn amdani oedd Mrs. Thomas ac yn chwaer i'r diweddar David Richards, Penlanfawr, un o wasanaethwyr mawr Capel-y-Cwm drwy gydol ei dyddiau. Y Dydd Sadwrn dilynol yn yr angladd yng Nghapel-y-Cwm, Cwmsychbant, gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen, S. Morgan, Ficer, T. E. Jones, Merthyr Tydfil, T. Oswald Williams, M.A. a J. Marles Thomas, M.A. Yr oedd nifer o berthnasau o bell ac agos yn yr angladd, a gadawodd hefyd mewn hiraeth dwys o'i cholli ddau frawd ac yn y cartref wrth ei hunan, ei phriod annwyl. Bendith y nef fo arno.

Mai 30 bu garw DAVID EVANS, Melrose Park, Cwrtnewydd, yn 73 oed. Un o deulu parchus 'Ralltgoch ydoedd ac un o ffyddloniaid Capel-y-Bryn, lle bu yn arweinydd y gân am rhyw ugain mlynedd. Er ei fod yn wannaidd ei iechyd ers misoedd, daeth y diwedd yn sydyn. Yr oedd y gynulleidfa fawr ar ddydd ei angladd yn dystiolaeth o'r parch oedd iddo yn y gymdogaeth. Ar yr achlysur y Dydd Mawrth dilynol yng Nghapel-y-Bryn, gwasanaethwyd gan y Parchn. S. E. Bowen ; S. Morgan, Ficer ; Iorwerth Davies (B) ; Morlais Jones, Talybont ; Lewis Williams a T. Oswald Williams, M.A. Traddodwyd pregeth yn y capel gan y Parch. Lewis Williams. Gadawodd mewn hiraeth dwys o'i golli, weddw a thair merch, dau frawd a chwaer a nifer luosog o berthnasau. Ei fab-yng-nghyfraith yw y Parch. E. D. Evans, Nantwich. Cydymdeimlir yn fawr â'i deulu yn ei colled â'i galar.

Newyddion yr Enwad

GWYL DE YN LLWYNRHYDOWEN.—Cafodd plant yr Ysgol Sul yma a phlant Ysgol Ddyddiol Pontshaen eu gŵyl de flynyddol ar ddydd Gwener y Groglith. Teulu Gerallt a Miss Evans, Abernant (Llwynmarles gynt) a roddodd y wledd i ni eleni ac fe gofiodd Miss Jones, Gellifaharen (gynt) yn hael gyda'i rhoddion i'r plant. Ar ran yr Ysgol Sul, rhannodd Mrs. Jones, Heulwen lyfrau Cymraeg gwerthfawr i'r plant ffyddlon yn ôl eu teilyngdod. Cafwyd cwrdd amrywiaethol i ddilyn a Miss Evans y Siop a Mrs. Evans, Gwarcwm yn cyfeilio. Gwnaeth y ddau efrydydd o'r Llwyn eu gwaith yn ddeheuig iawn a therfynwyd y cwrdd yn effeithiol iawn gyda Daff Jones yn canu emyn.

LLANW PULPUD Y LLWYN A'R BWLCH.—Hyfryd clywed fod y Parch. Aubrey Martin wedi derbyn yr alwad i'r ddwy eglwys uchod a'i fod yn dechrau ar ei waith yn gynnar mis Hydref. Dymunwn iddo fendith ym mhulpudau Gwilym Marles a Dafis Castell Hywel, ie, a phulpudau a urddasolwyd am gyfnod mor faith gan E. O. Jenkins. Fe ymfalchiwn o weld y Cymro cywir yma yn dychwelyd i'w hen wlad.

YR YMOFYNNYDD.—Drwg gennym ei fod wythnos ar ôl ei amser y tro hwn. Yr unig gysur sydd gan y Golygydd yw gwybod fod rhai cylchgronnau gannoedd o flynyddoedd ar ôl eu hamser ! Daeth cyfraniad arall i law, eiddo Mervyn Morgan, Trebanos, £1.

DARLLEDIAD Y PRIFATHRO O'R HEN DY CWRDD, ABERDAR. —Dymuna gwŷr yr Hen Dŷ Cwrdd ddiolch i bawb a ysgrifennodd i ddiolch am eu gwasanaeth ar yr awyr. Cawsant air caredig iawn amdano yn un o brif bapurau Cenedlaethol Cymru, *Y Faner*: "Y gwasanaeth nos Sul o Drecynon, Aber Dâr yn arbennig iawn, drwyddo draw, yn y rhannau agoriadol, y bregeth a'r canu. Dyma leisiau traddodi a chanu na cheid mo'u hafal yn un man."

DYDD Y GWOBRAU YNG NGHOLEG CAERFYRDDIN.—Yr oedd nodyn trist i'w glywed yn areithiau rhai o brif siaradwyr y Bwrdd Presbyteraidd ar y dydd pwysig hwn. Y mae 'gwerth y bunt' yn gwasgu'n drwm ar yr hen sefydliad ac er i'r Bwrdd gyflwyno bron bob dimau o'i incwm iddo erbyn hyn y mae'r rhagolygon yn dywyll. Gwared ni rhag gweled cau yr hen sefydliad hwn ac y mae'n sicr y dylai pob un o'n eglwysi ynghyd ag eglwysi'r enwadau eraill roi o'u gorau i'w gadw yn ganolfan 'addysg rydd' i'w myfyrwyr. Llwyddodd ein myfyrwyr i gwblhau gwaith da eleni eto, ond ysywaeth, anghofiodd llawer o'n eglwysi gyfrannu at eu treuliau. Y Dr. R. O. Jones oedd yn llywyddu ac fe gafwyd araith arddechog i'r myfyrwyr a oedd yn ymadael gan y Dr. Dorothy Tarrant, Llywydd y Gymdeithas Gyffredinol.

ABERYSTWYTH.—Ar wahan i'r cyrddau arferol am 11 y bore cynhelir cwrdd Cymraeg yn y Capel Bach am 6.30 yr hwyr ar y 3edd a'r 10fed o Awst—adeg yr Eisteddfod Genedlaethol. Y Parch. D. Jacob Davies fydd yn gwasanaethu ac fe estynnir croeso cynnes i ymwelwyr.

A YW'R UNDODIAID YN BYW'N HEN ?—Pan ymffrostiodd rhywun flynyddoedd yn ôl fod yr Undodiaid yn byw'n hwy na phobl arall, ateb un wag oedd : "*Mae ofn marw arnynt.*" Y mae nifer o Undodiaid yr oes yn cadw'r record ond gwn mae awydd byw a mwynhau bywyd sy'n eu dal yn gadarn. Efallai bod llawer rhagor ond gwn am dri sydd wedi croesi'r pedwar ugain a deg gan ddal yn hoyw o ran meddwl a chorff. Llongyfarchion cynnes yr YMOFYNNYDD, felly, i Thomas Lloyd, Pyllau'r Bryn ; Ex-Inspector Thomas, Treforest a Mrs. Ebenezer Davies, Aberdâr. Ond peidied y rhain ag ymffrostio dim canys plant ydynt eto dan eu hoed o'u cymharu a dwy ferch ifanc sy'n ymweld â chapel Aberystwyth bob gwyliau haf. Cyfeiriaf wrth gwrs at Miss Carrie Badland a Miss Jenny Badland o Kidderminster, y gyntaf yn 97 a'r ail yn 100 ! Codant bob bore am wyth ac erbyn naw maent yn rhodianna ar y prom. Y maent wedi byw yn yr un tŷ am dros bedwar ugain a deg o flynyddoedd ac y maent yn Undodiaid selog. Rhwydd hynt i bob un o honynt.

CYMANFA UNDODIAID CEREDIGION.—Cynhaliwyd y drigeinfed Gymanfa Ganu yn Llanbedr, ddydd Llun y nawfed o Fehefin eleni a hyfryd oedd y tywydd a'r canu. Mr. D. T. Davies, F.R.C.O., Dowlais oedd yr arweinydd ac yr oedd yn fedrus iawn yn enwedig gyda'r plant. Yn wir, meddai un wag, "yr oedd y plant yn talu mwy o sylw iddo na'r oedolion ! " Mr. Ted Morgan oedd wrth yr organ a chymerwyd rhan gan Marina Thomas, Jean Griffiths, Eilir Jones, Margaret Evans, Tom Thomas, Glenda Jenkins a Nance Evans. Cafwyd unawdau hyfryd gan Sal Jones, Gerwyn Evans a Dennis Brown. Agorwyd cyfarfod y bore gan Mary Williams, y ferch ifanc o Drebanos a'r Llywyddion oedd Mrs. T. Davies, Rhydygwin ; Mr. D. E. G. Davies, M.R.C.V.S., Pantydefaid a'r Inspector Ben Lewis, Soar. Trefnwyd y cyfarfodydd yn ddeheuig dros ben gan y Parch. T. O. Williams, M.A. ac y mae'r ysgrifennydd yn ddiolchgar iawn iddo. *Nodyn i Ysgrifenyddion yr Eglwysi* : Bydd y Pwyllgor yn cwrdd yng Nghapel-y-Bryn am 4 o'r gloch ddydd Sul, Gorffennaf 27. pryd disgwylir dau aelod i gynrychiolu pob eglwys. Hefyd, bydd yr Is-bwyllgor yn cwrdd ar y Sadwrn canlynol Awst 2, yn Llwynrhydowen er paratoi rhaglen 1953 a disgwylir dewisiad yr eglwysi i law cyn hyn.—DENZIL DAVIES, *Ysgrifennydd.*

J. D. Lewis a'i Feibion Cyf, Argraffwyr, Gwasg Gomer, Llandysul.